**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y DU

Chwefror 2015

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddYmchwil
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/2698
Rhif dogfen:15/007

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y DU

Chwefror 2015

Katy Orford

Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg byr o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y DU, gyda phwyslais ar sut y mae cynigion 2014-2020 yn wahanol i'r rheini a oedd ar waith yn ystod Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013.

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cynnwys


**1. Rhagarweiniad ..... 1**

1.1. Cefndir deddfwriaethol cynlluniau amaeth-amgylcheddol ..... 1
1.2. Ymrwymiadau a gwmpesir gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol ..... 2
1.3. Cyllid ..... 2
1.4. Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ..... 3

**2. Cymru ..... 7**

2.1. Glastir ..... 7
2.1.1. Glastir Sylfaenol ..... 8
2.1.2. Glastir Uwch ..... 8
2.1.3. Glastir Organig ..... 9
2.1.4. Tir Comin Glastir ..... 9
2.1.5. Coetir Glastir ..... 10
2.1.6. Cynllun Grant Bach a Rhwydwaith Cynefinoedd ..... 10
2.1.7. Gwella gwytnwch ucheldiroedd ..... 11
2.1.8. Gwella cyfathrebu a chyngor ..... 11
2.1.9. Taliadau a cheisiadau ar-lein ..... 11
2.2. Cyllid ..... 12

**3. Lloegr ..... 13**

3.1. Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd (NELMS) ..... 13
3.1.1. Dim cynllun 'lefel sylfaenol' ..... 14
3.1.2. Yr 'haen uwch' ..... 14
3.1.3. Yr 'haen ganol' ..... 15
3.1.4. Grantiau bach cyfalaf yn unig ..... 15
3.1.5. Un cytundeb fesul daliad ..... 15
3.1.6. Graddfa ysgol ..... 15
3.1.7. Cyngor a chymorth ..... 15
3.1.8. System TG y Polisi Amaethyddol Cyffredin ..... 15
3.2. Cyllid ..... 16

**4. Gogledd Iwerddon ..... 17**

4.1. Cynllun amaeth-amgylcheddol Gogledd Iwerddon ..... 17
4.2. Cyllid ..... 18

**5. Yr Alban ..... 19**

5.1. Cynllun Hinsawdd Amaeth-amgylcheddol ..... 19
5.2. Cyllid ..... 21

# Cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y DU

## 1. Rhagarweiniad

Nod y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) pan gafodd ei gyflwyno ym 1962 oedd cynyddu faint o fwyd oedd yn cael ei gynhyrchu er mwyn lliniaru'r prinder ar ôl y Rhyfel. Ers hynny, mae'r polisi wedi esblygu mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy ymateb i bryderon dinasyddion yr UE ynghylch yr angen i warchod yr amgylchedd. Cyflwynwyd cynlluniau amaeth-amgylcheddol i'r polisi ym 1992 fel ffordd o integreiddio pryderon amgylcheddol. Mae'r cynlluniau wedi'u dylunio i annog ffermwyr i warchod a gwella'r amgylchedd ar eu tir. Mae ffermwyr yn ymrwymo'n wirfoddol, am o leiaf bum mlynedd, i ddefnyddio technegau ffermio nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd, ac sy'n mynd y tu hwnt i rwymedigaethau cyfreithiol. Yn gyfnewid, mae'r ffermwyr yn cael taliadau sy'n gweithredu fel iawndal ar gyfer y costau ychwanegol a'r incwm a gollir yn sgil defnyddio arferion ffermio ecogyfeillgar yn unol ag amodau contractau amaeth-amgylcheddol. Mae ffermwyr a rheolwyr tir yn gwneud ceisiadau i elfennau gwahanol o'r cynlluniau. Mae gan bob elfen o'r cynllun feini prawf cymhwysedd gwahanol a chaiff ceisiadau eu beirniadu fesul achos. Er bod y cynlluniau'n ddewisol i ffermwyr o hyd, mae'n hanfodol yn ôl deddfwriaeth yr UE i aelod-wladwriaethau ddarparu rhaglenni amaeth-amgylcheddol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

### *1.1. Cefndir deddfwriaethol cynlluniau amaeth-amgylcheddol*

Dechreuodd mesurau amaeth-amgylcheddol mewn rhai aelod-wladwriaethau yn yr 1980au ar eu menter eu hunain, a chawsant eu cyflwyno i'r Gymuned Ewropeaidd ym 1985 drwy Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 797/85 ar strwythurau amaethyddol[1], ond eu bod yn parhau'n ddewisol ar gyfer aelod-wladwriaethau. Ym 1992 cawsant eu cyflwyno i bob aelod-wladwriaeth fel "mesur cysylltiedig" i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Roedd yn destun Rheoliad penodol (Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2078/92)[2], ac roedd yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gyflwyno mesurau amaeth-amgylcheddol "ledled eu tiriogaeth". Ym 1999, cafodd darpariaethau'r Rheoliad amaeth-amgylcheddol eu cynnwys yn y Rheoliad Datblygu Gwledig fel rhan o ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin "Agenda 2000". Bwriad hyn oedd helpu i sicrhau cysondeb o fewn Rhaglenni Datblygu Gwledig. [3]

[1] ***OJ L 093, 30.3.1985*** [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[2] ***OJ L 215, 30.7.1992*** [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[3] Y Comisiwn Ewropeaidd, y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar gyfer Amaeth a Datblygu Gwledig, ***Mesurau amaeth-amgylcheddol***, Mawrth 2005 [fel ar 3 Rhagfyr 2014].

## 1.2. Ymrwymiadau a gwmpesir gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol

Gellir dylunio mesurau amaeth-amgylcheddol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol fel y gellir eu haddasu i systemau ffermio ac amodau amgylcheddol penodol. Mae hyn yn gwneud cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn adnodd penodol ar gyfer cyflawni nodau amgylcheddol. Mae gweithgareddau o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn mynd y tu hwnt i ofynion y Taliad Sylfaenol er mwyn cadw tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da (GAEC)[4] a'r mesurau gwyrddu gorfodol. Ymhlith yr ymrwymiadau a gwmpesir gan gynlluniau amaeth-amgylcheddol mae'r canlynol:

- ffermio nad yw'n niweidio'r amgylchedd;
- rheoli systemau porfeydd dwysedd isel;
- rheolaeth ffermio integredig ac amaethyddiaeth organig;
- gwarchod tirweddau a nodweddion hanesyddol fel gwrychoedd, ffosydd a choedwigoedd; a
- gwarchod cynefinoedd pwysig a'r fioamrywiaeth gysylltiedig.[5]

## 1.3. Cyllid

Mae Colofn 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin, sef y taliadau uniongyrchol, yn darparu cymorth incwm i ffermwyr sy'n cadw eu tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da, a dyma'r prif gynllun sybsidiaredd amaethyddol yn yr UE. Mae Colofn 2, neu'r Golofn Datblygu Gwledig, yn darparu cymorth i ffermwyr a rheolwyr tir gyflawni nodau amgylcheddol ac yn cefnogi cymunedau a'r economi wledig drwy Raglenni Datblygu Gwledig y Llywodraeth.

Caiff cynlluniau amaeth-amgylcheddol eu hariannu o dan Golofn 2 gyda chynlluniau'n cael eu hariannu ar y cyd gan aelod-wladwriaeth neu lywodraethau rhanbarthol. Roedd gwariant yr UE ar fesurau amaeth-amgylcheddol ar gyfer 2007-2013 yn gyfanswm o tua €20 biliwn, neu 22% o wariant Colofn 2.[6] Ar gyfer y cyfnod ariannu 2014-20, rhaid neilltuo o leiaf 30% o gyllidebau Colofn 2 i fesurau amgylcheddol a mesurau'r hinsawdd, gan gynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol, mesurau coedwigaeth, cymorth ar gyfer ffermio organig a chymorth i ardaloedd sydd â chyfyngiadau naturiol.[7]

---

[4] Mae cadw tir mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da yn rhan o'r gofynion o dan Trawsgydymffurfio (cyfres o reolau y mae'n rhaid i bobl sy'n hawlio taliad ar gyfer Cynllun y Taliad Sengl neu gynlluniau datblygu gwledig penodol ei dilyn). Yn y DU, mae llywodraethau datganoledig Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn diffinio safonau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da ar gyfer eu rhanbarth eu hunain.
[5] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***Mesurau amaeth-amgylcheddol***, 10 Chwefror 2014 [fel ar 21 Hydref 2014]
[6] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***Mesurau amaeth-amgylcheddol***, 10 Chwefror 2014 [fel ar 21 Hydref 2014]
[7] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin – eglurhad o'r prif elfennau***, 25 Hydref 2013 [fel ar 6 Tachwedd 2014]

## 1.4. *Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin*

Mae'r Polisi yn cael ei ddiwygio'n sylweddol, gyda'r newidiadau hyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2015 a 2020 (gyda 2014 yn flwyddyn bontio). Mae'r diwygiadau hyn wrthi'n cael eu gweithredu yn aelod-wladwriaethau'r UE ar ôl dod i gytundeb gwleidyddol cyffredinol ar y prif elfennau ym mis Mehefin 2013.

Cyhoeddwyd rheoliadau drafft yr UE ar gyfer datblygu gwledig gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 12 Hydref 2011 fel rhan o'r cynigion ar gyfer diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.[8] Mae'r Comisiwn wedi nodi tri amcan strategol hirdymor ar gyfer datblygu gwledig o fewn Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20:

1 Gwella ysbryd cystadleuol amaethyddiaeth;

2 Rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol a gweithredu ar yr hinsawdd; a

3 Datblygiad tiriogaethol cytbwys o ardaloedd gwledig.

Bydd cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn gyfrifol yn bennaf am fynd i'r afael ag amcan 2. Mae'r cytundebau newydd ar gyfer y diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn rhoi hyblygrwydd digynsail i aelod-wladwriaethau a rhanbarthau o ran sut y maent yn gweithredu darpariaethau'r Polisi fel y gallant deilwra'r polisi i'w hanghenion a'u dulliau amaethyddol penodol.[9] Felly, mae'r diwygiadau i'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol rhwng yr aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau yn eang.

Ymhlith y prif newidiadau i Gymru mae cymorth gwell ar gyfer ucheldiroedd o dan y cynllun amaeth-amgylcheddol, Glastir, cyflwyno Glastir Organig a dileu'r gofyniad i ymuno â Glastir Sylfaenol er mwyn cael defnyddio Glastir Uwch. Yn Lloegr, mae'r cynllun amaeth-amgylcheddol newydd, Cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd (New Environmental Land Management Schemes - NELMS), wedi'i dargedu'n fwy at sicrhau blaenoriaethau amgylcheddol ac mae'r cynllun 'lefel sylfaenol' ar raddfa eang wedi'i ddileu. Yn yr Alban, mae gan y Cynllun hinsawdd amaeth-amgylcheddol (Agri-environment-Climate Scheme - AES) bwyslais ar fuddsoddiadau sy'n fwy penodol, gyda gofynion rheoli 'pwrpasol' ar gyfer ffermydd unigol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r cynlluniau newydd hefyd wedi'u dylunio i fod yn fwy penodol gyda nifer yr opsiynau a'r dewis o opsiynau sydd ar gael i'r ffermwr/perchennog y tir wedi'i benderfynu gan y statws neilltuo neu ansawdd amgylcheddol y tir dan sylw.

---

[8] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***Cynigion cyfreithiol ar gyfer y Polisi Amaethyddol Cyffredin ar ôl 2013***, 12 Hydref 2011 [fel ar 3 Rhagfyr 2014].

[9] Caiff pedair gwlad y DU eu cyfrif fel rhanbarthau at ddibenion yr UE. Gellir gweithredu pob elfen o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Gwledig a'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn rhanbarthol, fel bod gan Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban Raglenni Datblygu Gwledig a chynlluniau amaeth-amgylcheddol gwahanol.

O dan gyfnod ariannu 2014-2020, caiff 30% o gyllideb Colofn 1 ei defnyddio ar gyfer taliad 'gwyrddu' gorfodol.[10] Gall aelod-wladwriaethau/rhanbarthau ddewis sut i weithredu'r taliad gwyrddu. Bydd yn rhaid i ffermwyr gydymffurfio â thri maen prawf i gael y taliad:

- Rhaid i ffermwyr âr dyfu nifer ofynnol o gnydau a gaiff ei benderfynu yn ôl arwynebedd y tir âr;
- Ni chaiff ffermwyr aredig glaswelltiroedd parhaol a ddynodir o dan y Cyfarwyddebau Adar neu Gynefinoedd, nac aredig unrhyw laswelltiroedd ychwanegol sy'n sensitif ac yn werthfawr yn amgylcheddol, a ddynodir felly gan aelod-wladwriaethau. Mewn perthynas â glaswelltiroedd parhaol eraill, ni all ffermwyr newid mwy na 5% o laswelltir parhaol yn dir âr;
- Rhaid i ffermwyr sydd â dros 15ha o dir âr neilltuo o leiaf 5% o'r tir âr hwn i'w ddefnyddio fel ardal â ffocws ecolegol erbyn 2015, gan godi i 7% erbyn 2017 (yn destun adolygiad).

Mae perygl y gallai ffermwyr sy'n rhan o gynlluniau amaeth-amgylcheddol ac sydd hefyd yn cael taliad gwyrddu, gael eu talu ddwywaith am wneud yr un peth. Felly, caiff taliadau o gynlluniau amaeth-amgylcheddol ar gyfer mesurau sydd gyfwerth â gwyrddu eu lleihau i osgoi'r perygl o dalu ddwywaith.

O dan ddiwygiadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, cafodd aelod-wladwriaethau a rhanbarthau y dewis o drosglwyddo hyd at 15% o gyllid o Golofn 1 i Golofn 2 ac i'r gwrthwyneb. Roedd y graddau yr oedd gwledydd y DU yn trosglwyddo cyllid i ddatblygu gwledig (ac felly, cynlluniau amaeth-amgylcheddol) yn amrywio'n fawr; penderfynodd Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r uchafswm o 15% i Golofn 2 tra bod Gogledd Iwerddon wedi trosglwyddo 0%. Ni throsglwyddodd unrhyw un o wledydd y DU gyllid o Golofn 1 i Golofn 2 (Tabl 1 isod).

[10] *OJ L 347, 20.12.2013* [fel ar 9 Rhagfyr 2014]

**Tabl 1 Trosglwyddo cyllid rhwng Colofn 1 a Cholofn 2 yn y diwygiadau**

| **Lloegr**[11,12] | **Gogledd Iwerddon**[13] | **Yr Alban**[14,15] | **Cymru**[16,17,18] |
|---|---|---|---|
| Rhwng 2014 a 2019, trosglwyddo 12% o Golofn 1 i Golofn 2. Cynhelir adolygiad yn 2016 o'r galw am gynlluniau amaeth-amgylcheddol a chystadleurwydd amaethyddiaeth Lloegr gyda'r bwriad o symud i raddfa trosglwyddo 15% o Golofn 1 i Golofn 2 yn 2018 ac yn 2019.<br><br>Trosglwyddo 0% o Golofn 2 i Golofn 1. | Mae cyfuniad o ddiffyg consensws gwleidyddol ac ymyrraeth gyfreithiol wedi golygu na throsglwyddwyd dim o Golofn 1 i Golofn 2 ar gyfer 2014-19. Mae darpariaeth i ailystyried y mater hwn erbyn 1 Awst 2017, ac os gwneir y penderfyniad i gynyddu'r raddfa hon y byddai hyn yn gymwys ar gyfer 2018-19.<br><br>Trosglwyddo 0% o Golofn 2 i Golofn 1. | Rhwng 2015 a 2020, trosglwyddo 9.5% o Golofn 1 i Golofn 2.<br><br>Trosglwyddo 0% o Golofn 2 i Golofn 1. | Uchafswm y trosglwyddo a ganiateir o 15% o Golofn 1 i Golofn 2 ar gyfer 2014-2020.<br><br>Trosglwyddo 0% o Golofn 2 i Golofn 1. |

Mae'r rheolau newydd ar gyfer Colofn 2 yn darparu dull mwy hyblyg nac o dan gyfnod ariannu 2007-2013. O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, nid yw mesurau'n cael eu dosbarthu mwyach ar lefel yr UE fel "echelinau" gyda gofynion gwariant gofynnol cysylltiedig fesul echel. Yn hytrach, aelod-wladwriaethau / rhanbarthau fydd yn penderfynu pa fesurau a ddefnyddir ganddynt er mwyn cyrraedd targedau.

[11] Defra, ***Ymgynghoriad ar weithredu diwygiadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn Lloegr - Crynodeb o ymatebion ac ymateb y llywodraeth***, Rhagfyr 2013 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[12] Defra, ***Ymgynghoriad ar weithredu diwygiadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn Lloegr - Crynodeb o ymatebion ac ymateb y llywodraeth ar y materion sy'n weddill***, 14 Chwefror 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[13] DARD ***Taliadau Uniongyrchol Colofn 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin - Crynodeb o'r Penderfyniadau***, 11 Gorffennaf 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[14] Llywodraeth yr Alban ***Ymgynghoriad ar daliadau uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn y dyfodol yn yr Alban o 2015*** Rhagfyr 2013 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[15] Llywodraeth yr Alban, **Cwestiynau cyffredin ar wyrddu**, 7 Hydref 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[16] Llywodraeth Cymru, ***Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin - Taliadau uniongyrchol i ffermwyr: Penderfyniadau*** Ionawr 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[17] Llywodraeth Cymru **Datganiad y Cabinet, *Penderfyniadau pellach ar Golofn 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin,*** 1 Gorffennaf 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[18] Llywodraeth Cymru, ***Eich Canllaw i'r Cynllun Taliad Sylfaenol yng Nghymru,*** 14 Gorffennaf 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]

Mae'r adrannau a ganlyn o'r papur hwn yn rhoi trosolwg byr o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y DU, gyda phwyslais ar sut y mae cynigion 2014-2020 yn wahanol i'r rheini a oedd ar waith yn ystod cyfnod ariannu 2007-2013**. Gan nad yw Rhaglenni Datblygu Gwledig gwledydd wedi'u cymeradwyo eto gan y Comisiwn Ewropeaidd, gall y wybodaeth hon newid a chaiff ei diweddaru i gynnwys rhagor o fanylion fel sy'n briodol.**

# 2. Cymru

## *2.1. Glastir*

Glastir yw cynllun amaeth-amgylcheddol cyfredol Llywodraeth Cymru. Cafodd ei lansio'n wreiddiol yn 2012 o dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013 ac roedd yn disodli'r pum cynllun amaeth-amgylcheddol cyntaf yng Nghymru; Tir Gofal, Tir Cynnal, Tir Mynydd, y Cynllun Ffermio Organig a Coetiroedd Gwell i Gymru[19]. Mae chwe amcan i Glastir:

- Rheoli pridd er mwyn gwarchod stociau carbon a lleihau erydiad y pridd;
- Gwella ansawdd dŵr a lleihau faint o ddŵr wyneb sy'n ffrydio;
- Rheoli dŵr er mwyn helpu i leihau'r risg o lifogydd;
- Gwarchod a gwella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth;
- Rheoli a diogelu tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol; a
- Chreu cyfleoedd newydd i wella'r mynediad at gefn gwlad a gwella'r ddealltwriaeth ohono. [20]

Bydd Glastir yn parhau i fod y prif fodel darparu ar gyfer mesurau amaeth-amgylcheddol, coedwigaeth a'r hinsawdd o dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Cafodd y Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru ar gyfer 2014-20 ei chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Gorffennaf 2014 ond nid yw wedi'i chymeradwyo'n llawn eto.[21] Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i Glastir ym mis Ionawr 2014. O ganlyniad i hyn, mae crynodeb a dadansoddiad o'r 148 o ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law wedi'u cyhoeddi, ac maent yn amlinellu'r safbwynt terfynol ar y cynigion am newid.[22] Mae newidiadau Llywodraeth Cymru i Glastir wedi'u lunio i ystyried gofynion gwyrddu gorfodol y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd a'r amcanion o fewn rheoliad y Rhaglen, fel y newid yn yr hinsawdd ac ynni adnewyddadwy.

Mae 5,350 o o fusnesau fferm unigol yn cymryd rhan yn Glastir ar hyn o bryd.[23] Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn gwneud ymrwymiad i ddarparu nwyddau amgylcheddol am bum mlynedd o dan gontract cyfreithiol rhwymol.[24] Mae manylion am elfennau amrywiol Glastir, a'r newidiadau i'r cynllun o dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ar gael isod.

---

[19] Swyddfa Archwilio Cymru, ***Glastir***, tudalen 6, troednodyn 1 [fel ar 27 Hydref 2014]
[20] Swyddfa Archwilio Cymru, ***Glastir***, tudalen 11, blwch 1 [fel ar 27 Hydref 2014]
[21] Llywodraeth Cymru ***Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** 16 Hydref 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]
[22] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** [fel ar 21 Hydref 2014]
[23] Gwefan Llywodraeth Cymru, ***Gweinidog yn disgrifio'r ffordd ymlaen i Glastir***, 17 Mehefin 2014 [fel ar 20 Hydref 2014]
[24] Llywodraeth Cymru, ***Glastir Sylfaenol***, 19 Medi 2014 [fel ar 27 Hydref 2014]

### *2.1.1. Glastir Sylfaenol*

Mae Glastir Sylfaenol yn gynllun rheoli tir fferm gyfan ar hyn o bryd, gyda nodau amgylcheddol eang sydd ar agor i ffermwyr a rheolwyr tir ledled Cymru.

Gall ffermwyr ddewis o restr o opsiynau rheoli e.e. plannu coed brodorol, rheoli gwrychoedd a chadw gwellt y gaeaf, gyda phob opsiwn werth nifer benodol o bwyntiau. Mae trothwy pwyntiau a rhaid i bob ymgeisydd fodloni neu ragori ar y trothwy i gael mynediad at y cynllun. Bydd nifer y pwyntiau sydd eu hangen yn dibynnu ar faint y fferm, gyda fferm fwy yn gorfod cael mwy o bwyntiau. Mae gan Glastir Sylfaenol dros 4,200 o gyfranogwyr ar hyn o bryd.[25]

Mae'r gyfres ddiwygiedig o opsiynau ar gyfer Glastir Sylfaenol o dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar gael yn Atodiad 5 o'r ddogfen dadansoddi'r ymgynghoriad.[26] Mae ansawdd a threfn yr opsiynau wedi'u hadolygu. Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i hyblygrwydd er mwyn i ymgeiswyr ddewis opsiynau amrywiol a chan ddileu cyfranogiad isel a dyblygu gweithgareddau.[27] O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, caiff y cyllid ei symud o Glastir Sylfaenol i gynlluniau mwy penodol (Ffigur 1).

### *2.1.2. Glastir Uwch*

O dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013, roedd Glastir Sylfaenol yn darparu ffordd o gael gafael ar Glastir Uwch. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen newydd wedi cael gwared ar yr angen i ymuno â Glastir Sylfaenol i gael defnyddio Glastir Uwch. Y rheswm am y penderfyniad hwn yw y bydd yn helpu i gyflawni nodau amgylcheddol Llywodraeth Cymru ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i reolwyr tir.[28] O dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013, roedd Glastir Uwch yn gynllun rhan o'r fferm. O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio cod fferm gyfan pan fo angen, gyda'r syniad bod angen mesurau diogelu i sicrhau na chaiff y manteision ar un rhan o'r fferm eu colli mewn rhannau eraill.[29]

Mae'r cynllun yn gweithredu ar sail ofodol, gan gynnig cymorth i ffermwyr o fewn ardaloedd daearyddol a all ddarparu'r canlyniadau sydd eu hangen fwyaf.[30] Bwriad Glastir Uwch yw darparu gwelliannau sylweddol i statws amgylcheddol amrywiaeth

[25] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), **Dyfodol Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig**, Datganiad Llafar y Cabinet, 17 Mehefin 2014 [fel ar 3 Rhagfyr]
[26] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, **Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020** tudalen 40 [fel ar 21 Hydref 2014]
[27] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, **Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020** tudalen 16 [fel ar 21 Hydref 2014]
[28] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, **Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020** tudalen 8 [fel ar 21 Hydref 2014]
[29] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, **Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020** tudalen 8 [fel ar 21 Hydref 2014]
[30] Llywodraeth Cymru, **Glastir Uwch**, 8 Hydref 2014 [fel ar 27 Hydref 2014]

o gynefinoedd, rhywogaethau, pridd a dŵr. Mae gan Glastir Uwch dros 1,000 o gyfranogwyr.[31] O dan y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd, disgwylir i fwy o gyllid fod ar gael ar gyfer Glastir Uwch (Ffigur 1).[32]

### *2.1.3. Glastir Organig*

Mae Glastir Organig yn elfen newydd o'r cynllun Glastir a gyflwynwyd o dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Bydd y cynllun newydd yn cefnogi'r cynhyrchwyr organig cyfredol i barhau i ffermio'n organig a chefnogi'r rheini sy'n newid tir confensiynol yn dir organig. Roedd ffermwyr yn gallu gwneud cais ar-lein i gymryd rhan yn Glastir Organig yn ystod mis Hydref 2014, ar gyfer contractau a oedd yn dechrau ar 1 Ionawr 2015. Mae Glastir Organig yn disodli trefniadau'r Cynllun Troi at Ffermio Organig.

### *2.1.4. Tir Comin Glastir*

Gall cymdeithasau pori tir comin wneud cais i ddefnyddio opsiynau i leihau effeithiau gor-bori ar dir comin. Mae Tir Comin Glastir bellach yn cwmpasu tua 110,000 hectar (63%) o'r tir comin yng Nghymru.[33] O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 bydd un cynllun ar gyfer tir comin, gan gyfuno Tir Comin Glastir ac elfennau Uwch Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013. O dan y cynllun newydd bydd mwy o hyblygrwydd o ran dwysedd stoc, wedi'i drafod â swyddogion datblygu, i fynd i'r afael ag anghenion amgylcheddol y tir comin. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd un cynllun yn lleihau biwrocratiaeth a chostau gweinyddol drwy gynnig, o'r cychwyn cyntaf, gontract Glastir Sylfaenol neu Glastir Uwch. Ymhlith manteision un cynllun a amlinellir gan Lywodraeth Cymru mae:

- cael un drafodaeth ynghylch stoc, gan roi'r cyfle i gymdeithasau pori wneud dewis gwybodus;
- cynnig hyblygrwydd i newid o Glastir Sylfaenol i Glastir Uwch os bydd cymdeithasau pori yn newid eu meddwl, gan y byddai lefelau stocio Glastir Uwch eisoes wedi'u hegluro;
- y cyfle i gynyddu cyfran y gwartheg yn yr ucheldiroedd a fyddai'n darparu ar gyfer cyfuniad mwy amrywiol a photensial gwell ar gyfer bioamrywiaeth; a
- threfniadau penodol sydd wedi'u teilwra'n fwy effeithiol.[34]

---

[31] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (y Gweinidog Cyfoeth Naturiol and Bwyd), ***Dyfodol Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig***, Datganiad Llafar y Cabinet, 17 Mehefin 2014 [fel ar 3 Rhagfyr]
[32] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 36 [fel ar 21 Hydref 2014]
[33] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (y Gweinidog Cyfoeth Naturiol and Bwyd), ***Dyfodol Glastir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig***, Datganiad Llafar y Cabinet, 17 Mehefin 2014 [fel ar 3 Rhagfyr]
[34] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** 23 Ionawr 2014, tudalen 23 [fel ar 20 Hydref 2014]

### 2.1.5. Coetir Glastir

Mae Coetir Glastir yn cynnwys dwy ran, Creu Coetir Glastir ar gyfer ariannu ardaloedd newydd i blannu coetiroedd a Rheoli Coetir Glastir i reoli coetiroedd cyfredol yn well.

O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 mae'n ofynnol o dan Glastir bod Cynllun Rheoli Coedwigoedd neu gynllun cyfwerth ar gyfer creu coetiroedd, sy'n cyd-fynd â Safon Coedwigaeth y DU, yn cael ei baratoi. Caiff pwyntiau allweddol o'r cynllun eu cynnwys yn holl gytundebau Glastir ar gyfer coetiroedd.[35] Cynigir hyn er mwyn cynyddu cyflymder y broses o blanu coetiroedd newydd ac i ba raddau y caiff coetiroedd cyfredol eu rheoli'n weithredol.

O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am yr opsiwn Coetir Brodorol-Carbon ar gyfer creu coetir, gofrestru'r cynllun gyda Chod Coetir-Carbon y DU. Y bwriad yw bod hon yn ffordd briodol o gysylltu coetiroedd a gaiff eu creu'n benodol i gysylltu carbon â Safon Genedlaethol y DU ar gyfer y gweithgarwch hwn.[36]

O dan y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd, caiff contractau Rheoli Coetir Glastir eu dyfarnu ar sail dreigl yn ystod y flwyddyn, gyda thaliadau incwm a gollwyd yn cychwyn ar ddechrau'r flwyddyn galendr nesaf.[37] Disgwylir i fwy o gyllid fod ar gael ar gyfer elfennau coetiroedd Glastir o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd (Ffigur 1).[38]

### 2.1.6. Cynllun Grant Bach a Rhwydwaith Cynefinoedd

Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig newydd yn cyflwyno Cynllun Grant Bach a Rhwydwaith Cynefinoedd annibynnol i roi mwy o ryddid i ffermwyr sy'n gwneud gwaith amgylcheddol ar ran o'u ffermydd yn unig. Er y caiff cymorth ar gyfer gwaith cyfalaf amgylcheddol ei ariannu drwy elfennau eraill o Glastir, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r gweithgareddau mwyaf buddiol fod ar gael y tu allan i gytundebau fferm ehangach, er enghraifft, ardaloedd bach o blannu coed.[39]

---

[35] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 27 [fel ar 21 Hydref 2014]
[36] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 27 [fel ar 21 Hydref 2014]
[37] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 28 [fel ar 21 Hydref 2014]
[38] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 36 [fel ar 21 Hydref 2014]
[39] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** 23 Ionawr 2014, tudalen 34 [fel ar 20 Hydref 2014]

Yn ystod yr ymgynghoriad roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig o gael cynllun Rhwydwaith Cynefinoedd fel ffordd dda o dargedu'r rheini sydd â llawer i'w gynnig, ond sydd y tu allan i'r cyrchfannau targed ar gyfer y cynllun Uwch.

### *2.1.7. Gwella gwytnwch ucheldiroedd*

Heb gynnig am gynllun annibynnol Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol[40], gwnaeth ymgynghoriad Glastir nifer o argymhellion mewn perthynas â gwella'r gefnogaeth a roddir i ucheldiroedd drwy'r cynllun Glastir. Caiff dull cyfrifo newydd o stoc ucheldiroedd ei ddatblygu mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig datblygu fframwaith i annog pori cymysg yn yr ucheldiroedd.[41] Mae hefyd yn cynnig cefnogi rhoi cefnogaeth i reoli rhedyn drwy ddarparu taliad grant cyfalaf ar gyfer rheoli rhedyn yn fecanyddol ac mewn ffyrdd eraill, drwy'r cynllun Grantiau Bach arfaethedig.[42] O dan y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig blaenoriaethu ceisiadau i Glastir Uwch ar gyfer y ffermwyr hynny o fewn y parth rhostir 400m+.[43]

### *2.1.8. Gwella cyfathrebu a chyngor*

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl parhau i gyflawni mewn perthynas â Strategaeth Gyfathrebu Strategol Glastir, a lansiwyd ym mis Ionawr 2013.[44] Mae'n cynnig y bydd grwpiau cefnogi ffermwyr yn cael eu cefnogi a'u hariannu, yn enwedig ar gyfer y rhannau hynny o Glastir lle mae dulliau cydweithredol yn cael eu hannog.[45]

### *2.1.9. Taliadau a cheisiadau ar-lein*

Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu system dalu ar-lein, sef Taliadau Gwledig Cymru ar-lein. Bydd y ffurflenni ar-lein ar gael o fis Chwefror 2015, gyda ffurflenni papur yn cael eu tynnu'n ôl o 2016. Gall ffermwyr gyflwyno ceisiadau ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol drwy'r system ar-lein hon.[46]

---


[40]Cynllun a ddyluniwyd i dargedu'r rheini sy'n ffermio mewn rhostiroedd (a ddiffinnir fel ucheldir sy'n uwch na 400m).
[41] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 23 [fel ar 21 Hydref 2014]
[42] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 23 [fel ar 21 Hydref 2014]
[43] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 24 [fel ar 21 Hydref 2014]
[44] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 11 [fel ar 21 Hydref 2014]
[45] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 10 [fel ar 21 Hydref 2014]
[46] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** tudalen 12 [fel ar 21 Hydref 2014]

## 2.2. Cyllid

Roedd gan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013 Cymru ymrwymiad gwariant cyffredinol o £795 miliwn.[47] O'r cyllid a oedd ar gael ar gyfer gwariant amaeth-amgylcheddol o dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013, cafodd Glastir Sylfaenol 42%, cafodd Glastir Uwch 45%, cafodd y cynlluniau rheoli a phlannu coetiroedd 4%, cafodd grantiau cyfalaf effeithlonrwydd Glastir 3% a chafodd ffermio organig 6%.[48]

Yn dilyn y penderfyniad yn 2014 i drosglwyddo 15% o gyllideb y Polisi Amaethyddol Cyffredin o Golofn 1 i Golofn 2, y lefel fwyaf a ganiateir, mae £953 miliwn wedi'i ddyrannu i'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer 2014-2020.[49] Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig, o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, y bydd Glastir Sylfaenol yn cael 20%, y bydd Glastir Uwch yn cael 58%, y bydd y cynlluniau rheoli coetiroedd yn cael 10%, ac y caiff yr elfen effeithlonrwydd ei thynnu o Glastir i'w hariannu o rywle arall[50]. Bydd ffermio organig yn cael 6%, a bydd 6% yn mynd i'r Cynllun Grantiau bach newydd (Ffigur 1). [51]

**Ffigur 1. Gwariant amaeth-amgylcheddol ar yr elfennau Glastir o dan Raglenni Datblygu Gwledig 2007-2013 a 2014-2020. Ffynhonnell: Ymgynghoriad Glastir - Llywodraeth Cymru.**[52]




---

[47] Llywodraeth Cymru, Elin Jones (y Gweinidog Materion Gwledig) ***Y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Diwygio ar ôl 2013*** Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, 17 Ionawr 2011 [fel ar 21 Hydref 2014]

[48] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** 23 Ionawr 2014, tudalen 51, tabl 7 [fel ar 23 Medi 2014]

[49] Gwefan Llywodraeth Cymru, ***Gweinidog yn disgrifio'r ffordd ymlaen i Glastir***, 17 Mehefin 2014 [fel ar 20 Hydref 2014]

[50] O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, bydd y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy o fewn y Rhaglen Datblygu Gwledig ehangach yn disodli Grantiau Effeithlonrwydd Glastir a oedd ar gael i ariannu gwaith cyfalaf i wella effeithlonrwydd adnoddau fferm o dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013.

[51] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** 23 Ionawr 2014, tudalen 51, tabl 7 [fel ar 23 Medi 2014]

[52] Llywodraeth Cymru, Dogfen Dadansoddi'r Ymgynghoriad, ***Cynigion ar gyfer y cynllun Glastir, rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*** 23 Ionawr 2014, tudalen 51, tabl 7 [fel ar 23 Medi 2014]

# 3. Lloegr

## *3.1. Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd (NELMS)*

Cyflwynodd Llywodraeth y DU gynlluniau ar gyfer ei Rhaglen Datblygu Gwledig newydd i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mehefin 2014.[53] O dan y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd, mae'r Cynlluniau Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd (NELMS) yn disodli Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol y Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer 2007-2013 (a ddisodlodd yn ei thro y Cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif a'r Cynllun Stiwardiaeth Cefn Gwlad). Ers 2005, mae tua 52,000 o ffermwyr a rheolwyr tir eraill wedi cofrestru ar gyfer y Cynlluniau Stiwardiaeth Amgylcheddol, gan gwmpasu dros 6.4 miliwn hectar neu 70% o'r tir ffermio yn Lloegr.

Fel arfer bydd y Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd yn cynnig cytundebau pum mlynedd, gyda'r opsiwn o ymestyn bob blwyddyn am ddwy flynedd arall. Mewn rhai achosion, cynigir cytundebau deng mlynedd pan fo angen sicrhau buddiannau amgylcheddol.

Bydd y cynllun newydd yn cynnwys opsiynau o ran rheoli coetiroedd a choedwigoedd a bydd hefyd yn disodli Cynllun Grantiau Coetiroedd Lloegr (EWGS).[54] Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd y cynllun newydd yn fwy penodol a chyda ffocws gwell na'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol er mwyn sicrhau blaenoriaethau amgylcheddol lleol.[55] Caiff opsiynau penodol eu cynnig i ymgeiswyr yn unol â mapiau penodol a fydd, yn ôl Defra, yn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar synergedd mewn ardaloedd a rhwng opsiynau. Mae Defra wedi tynnu sylw at y ffaith mai blaenoriaeth gyffredinol y Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd yw hyrwyddo bioamrywiaeth. Mae hefyd yn cwmpasu ansawdd dŵr, y pridd, yr amgylchedd hanesyddol, y newid yn yr hinsawdd, y dirwedd, gwarchod geneteg a mynediad addysgol.

Mae manylion am y newidiadau hysbys i gynlluniau amaeth-amgylcheddol Lloegr rhwng Rhaglenni Datblygu Gwledig 2007-2013 a 2014-2020 ar gael isod:

---

[53] Llywodraeth y DU, ***Rhaglen Datblygu Gwledig Lloegr: Amlinelliad o'r rhaglen newydd*** 10 Mehefin 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]

[54] Cynigiodd y Comisiwn Coedwigaeth nifer o grantiau drwy ***EWGS***, a ddarparwyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig.

[55] Datganiad i'r wasg Defra, ***Cynllun amgylcheddol newydd i ffermwyr flaeoriaethu bioamrywiaeth***, 26 Chwefror 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]

### 3.1.1. Dim cynllun 'lefel sylfaenol'

O dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013, roedd Stiwardiaeth Lefel Sylfaenol (ELS) yn darparu dull ar gyfer cefnogi stiwardio cefn gwlad yn dda drwy reoli tir. Roedd ELS yn gytundeb ar gyfer y fferm gyfan yn seiliedig ar bwyntiau ac ar gael i bob ffermwr Gallai ffermwyr a rheolwyr tir ddewis o opsiynau rheoli tir sylfaenol i gyrraedd eu targed pwyntiau (fel Glastir). Roedd ELS yn cynnwys ELS Ucheldiroedd ac ELS Organig.

O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, ni fydd haen 'lefel sylfaenol' ar agor i bob rheolwr tir. Bydd y Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd yn cynnwys mesurau 'llinell sylfaen' sy'n uwch na thrawsgydymffurfiaeth a gwyrddu, a bydd yn rhaid i bob ymgeisydd i'r Cynllun gydymffurfio â hwy, heb daliad. Bydd dwy haen gystadleuol; 'haen uwch' a 'haen ganol' (ceir manylion isod).

### 3.1.2. Yr 'haen uwch'

O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020, mae'r haen uwch yn targedu'r safleoedd sydd â'r flaenoriaeth fwyaf, fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond mae hefyd yn cynnwys pob cytundeb coetir. Mae'r haen uwch yn debyg i Stiwardiaeth Lefel Uwch (HLS) a oedd yn bodoli o dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013. Roedd y cytundebau HLS yn gytundebau deng mlynedd cystadleuol a oedd yn cynnwys mathau mwy cymhleth o reolaeth a chytundebau nag ELS ac roeddent wedi'u teilwra i amgylchiadau lleol. Roedd ceisiadau HLS yn cael eu hasesu yn erbyn targedau lleol penodol ac roedd cytundebau'n cael eu cynnig pan oeddent yn cyrraedd y targedau hyn.[56]

Mae gan haen uwch y Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd amrywiaeth debyg o opsiynau i HLS, sydd wedi'u llunio i ddarparu buddiannau amgylcheddol sylweddol. Dim ond drwy wahoddiad y gwneir cytundebau. Bydd nifer o ddeiliaid cytundebau HLS yn gallu trosglwyddo cytundebau i'r Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd, er na fydd hyn yn awtomatig. Dewisir ar sail perfformiad yn y gorffennol a blaenoriaethau'r cynllun lleol.

[56] Natural England, *NE350: Stiwardiaeth Lefel Uwch: Llawlyfr Stiwardiaeth Amgylcheddol*, pedwerydd argraffiad, Ionawr 2013 [fel ar 28 Hydref 2014]

### *3.1.3. Yr 'haen ganol'*

Bydd cytundebau'r haen ganol yn canolbwyntio ar sicrhau enillion amgylcheddol ar raddfa tirwedd gyda rhagor o gyfleoedd i gydgysylltu rhwng clystyrau neu grwpiau o ffermwyr. Bydd Natural England yn darparu cyfarwyddyd ynghylch beth fydd y blaenoriaethau ym mhob ardal a bydd yn sgorio ceisiadau ar ba mor dda y maent yn sicrhau'r blaenoriaethau hynny. Dim ond ceisiadau â'r sgorau uchaf fydd yn cael cynnig cytundeb.

### *3.1.4. Grantiau bach cyfalaf yn unig*

Bydd grantiau bach cyfalaf yn unig, heb fod yn gysylltiedig â chytundeb amlflwyddyn, yn cael eu cyflwyno. Bydd grantiau bach cyffredinol ar gael ledled y wlad i'r rheini sy'n methu â defnyddio cytundebau'r Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd. Mae'r gweithgareddau y gellir eu cyflawni o dan y grantiau hyn yn cynnwys gosod gwrychoedd, tyfu coed ac adfer waliau cerrig.[57]

### *3.1.5. Un cytundeb fesul daliad*

Mae'r cynllun yn seiliedig ar un cytundeb heb linynnau ar wahân ar gyfer ffermwyr organig a ffermwyr ucheldiroedd. Yn wahanol i ELS, ni fydd yn gynllun fferm gyfan ond bydd yn ariannu ardaloedd penodol o'r daliad.

### *3.1.6. Graddfa ysgol*

Ni fydd y cynllun yn seiliedig ar gyfrifiad pwyntiau fel y Stiwardiaeth Amgylcheddol, ond yn hytrach bydd yn seiliedig ar 'raddfa ysgol' lle bydd taliadau'n uwch os dewisir mwy o opsiynau.

### *3.1.7. Cyngor a chymorth*

Lefelau gwahanol o gyngor a chymorth yn dibynnu ar y math o gais/cytundeb. Bydd Natural England yn rhoi cyngor mewn perthynas â'r contractau ar gyfer ucheldiroedd mewn ffordd debyg i HLS. Ni fydd Natural England yn rhoi cyngor i ymgeiswyr yr haen ganol. Bydd y cyngor ar-lein neu gan drydydd parti.

### *3.1.8. System TG y Polisi Amaethyddol Cyffredin*

Caiff system TG gyffredin y Polisi ei defnyddio gan bob cynllun, ar gyfer mapio ar-lein a'r broses ymgeisio.

---

[57]Llywodraeth y DU, ***Rhaglen Datblygu Gwledig Lloegr: Amlinelliad o'r rhaglen newydd*** 10 Mehefin 2014 [fel ar 3 Rhagfyr 2014]

## *3.2. Cyllid*

Roedd gan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013 Lloegr gyllideb a oedd yn gyfanswm o £3.7 biliwn, gydag 83% o'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i neilltuo i reoli tir amgylcheddol.[58] Roedd cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cyfrif am gyfran sylweddol o hyn, sef £2.9 biliwn.[59]

Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl gwario £3.5 biliwn o dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar gyfer Lloegr a bron i £3.1 biliwn ar yr amgylchedd dros gyfnod y rhaglen newydd.[60] Bydd hyn yn cynyddu i £3.65 biliwn a £3.2 biliwn yn y drefn honno os bydd y raddfa drosglwyddo yn codi o 12% i 15% yn ystod dwy flynedd olaf cyfnod y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Tabl 1). Gyda throsglwyddiad o 12%, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwario tua 87% ar yr amgylchedd (o'i gymharu ag 83% yn rhaglen 2007-2013).[61] Mae £2.2 biliwn o'r gyllideb Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i gyfrif amdano gan gytundebau amaeth-amgylcheddol cyfredol nad ydynt yn dod i ben tan hanner ffordd drwy'r rhaglen nesaf, neu weithiau y tu hwnt i'r rhaglen newydd.[62] Felly, bydd llai na £1 biliwn ar gael ar gyfer y Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol Newydd.

---

[58] Defra, ***Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn Lloegr: Adroddiad statws ar y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd*** Awst 2013 [fel ar 17 Tachwedd 2014]

[59] Defra – Natural England, ***Adolygu Cynnydd y Stiwardiaeth Amgylcheddol*** Mai 2008 [fel ar 17 Tachwedd 2014]

[60] Defra, ***Ymgynghoriad ar weithredu diwygiadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn Lloegr - Crynodeb o ymatebion ac ymateb y llywodraeth ar y materion sy'n weddill***, 14 Chwefror 2014 [fel ar 29 Hydref 2014]

[61] Defra, ***Ymgynghoriad ar weithredu diwygiadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn Lloegr - Crynodeb o ymatebion ac ymateb y llywodraeth ar y materion sy'n weddill***, 14 Chwefror 2014 [fel ar 29 Hydref 2014]

[62] Defra, ***Ymgynghoriad ar weithredu diwygiadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn Lloegr - Crynodeb o ymatebion ac ymateb y llywodraeth ar y materion sy'n weddill***, 14 Chwefror 2014 [fel ar 29 Hydref 2014]

# 4. Gogledd Iwerddon

## *4.1. Cynllun amaeth-amgylcheddol Gogledd Iwerddon*

Cynllun Rheoli Cefn Gwlad Gogledd Iwerddon (NICMS) a'r Cynllun Ffermio Organig (OFS) oedd y ddau gynllun amaeth-amgylcheddol yng Ngogledd Iwerddon o dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013. Roedd NICMS yn gynllun fferm gyfan a oedd ar agor i bob ffermwr a rheolwr tir gydag o leiaf 3ha o dir cymwys, a oedd fel arfer yn para am saith mlynedd.[63] Roedd OFS yn gynllun amaeth-amgylcheddol pum mlynedd a oedd yn annog ac yn helpu ffermwyr i newid i ffermio organig.

Ar adeg yr ymgynghoriad ar Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (Medi 2013), roedd tua 11,600 o ffermwyr yn cymryd rhan yng nghynlluniau amaeth-amgylcheddol Gogledd Iwerddon, gyda thua 438,000 hectar o dir amaethyddol yn cael ei reoli o dan gytundebau'r cynllun.[64]

Cyflwynwyd cynigion Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 i'r Comisiwn Ewropeaidd eu cymeradwyo ym mis Hydref 2014, gan gynnwys rhai manylion am y cynllun amaeth-amgylcheddol arfaethedig. Prif nodau'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol newydd yw helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth, gwella ansawdd dŵr, aer a phridd, gwella'r dirwedd, a chynyddu faint o goetiroedd a gaiff eu creu. Mae'r cynllun hefyd yn ceisio helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac annog arferion ffermio sy'n arwain at ddal a storio carbon.[65]

Mae'r cynllun newydd wedi'i ddylunio i fod yn fwy penodol. Caiff y penderfyniad ynghylch nifer yr opsiynau a'r dewis o opsiynau sydd ar gael i'r ffermwr/perchennog tir ei benderfynu gan y statws neilltuo neu ansawdd amgylcheddol y tir dan sylw. O dan y cynllun, mae dwy gyfres benodol o opsiynau:

1. Cyfres o opsiynau sydd wedi'u dylunio i ddarparu cymorth ariannol i reolaeth o gynefinoedd/rhywogaethau penodol ar safleoedd dynodedig neu ardaloedd penodol. Ymhlith y safleoedd dynodedig mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (y mae'r ddau yn rhan o Natura 2000) ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Bydd ardaloedd penodol diffiniedig eraill hefyd yn gymwys os gallant gyflawni o leiaf un o'r prif amcanion.

---

[63] Gwefan yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***Cynllun Rheoli Cefn Gwlad Gogledd Iwerddon (NICMS)*** [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[64] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***Ymgynghoriad ar y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020*** Medi 2013 [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[65] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***Ymgynghoriad ar y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020*** Medi 2013 [fel ar 3 Tachwedd 2014]

2. Cyfres o opsiynau mwy cyffredinol sydd wedi'u llunio i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer rheoli dŵr a chynefinoedd/rhywogaethau er mwyn sicrhau buddiannau i'r cefn gwlad ehangach. Bydd yr opsiynau penodol hyn yn cynnwys amrywiaeth o fesurau i wella bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr. Cynigir integreiddio mesurau o ran creu coetiroedd ffermydd bach o fewn y themâu hyn.[66]

Bydd y cytundebau amaeth-amgylcheddol newydd yn para am bum mlynedd, a gellir eu hymestyn bob blwyddyn ar ôl y cyfnod hwnnw. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ffermwyr a'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wrth i flaenoriaethau amgylcheddol ddatblygu. Yn wahanol i'r NICMS blaenorol, mae ymgynghoriad y Rhaglen Datblygu Gwledig yn nodi efallai na fydd y cytundebau amaeth-amgylcheddol yn y cynllun newydd yn gytundebau ar gyfer ffermydd cyfan.[67]

Mae'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cynnig y bydd y cynlluniau amaeth-amgylcheddol hefyd yn sicrhau elfen well o hyfforddiant a chymorth i helpu ffermwyr roi eu cytundebau amaeth-amgylcheddol ar waith a chodi ymwybyddiaeth o'r gofynion mewn perthynas â gwella a gwarchod yr amgylchedd. Caiff mesurau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a dwysedd carbon ym maes ffermio eu hintegreiddio o fewn pob cytundeb cynllun amaeth-amgylcheddol.[68]

## *4.2. Cyllid*

Roedd gan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013 Gogledd Iwerddon gyllideb a oedd yn gyfanswm o £500 miliwn.[69] Roedd y gyllideb a oedd ar gael ar gyfer y cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn £180 miliwn.[70]

Mae gan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Gogledd Iwerddon gyllideb sy'n gyfanswm o £623 miliwn[71], gyda gwariant posibl o £191 miliwn ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

---

[66] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***Ymgynghoriad ar y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020*** Medi 2013 [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[67] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***Ymgynghoriad ar y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020*** Medi 2013 [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[68] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***Ymgynghoriad ar y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020*** Medi 2013 [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[69] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***Rhaglen Datblygu Gwledig*** [fel ar 11 Tachwedd 2014]
[70] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol*** [fel ar 11 Tachwedd 2014]
[71] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2010 - Crynodeb o'r Mesurau Arfaethedig*** [fel ar 11 Tachwedd 2014]

## 5. Yr Alban

### *5.1. Cynllun Hinsawdd Amaeth-amgylcheddol*

Y Cynllun Stiwardiaeth Gwledig oedd y prif gynllun amaeth-amgylcheddol cystadleuol yn yr Alban o dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013.[72] Roedd y Cynllun Stiwardiaeth Gwledig ar agor i bawb a oedd yn ffermio yn yr Alban ac roedd y contractau'n para am o leiaf bum mlynedd, ond gallent fod hyd at ddeng mlynedd.

Cyflwynwyd y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 arfaethedig ar gyfer yr Alban i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mehefin 2014 ac roedd yn cynnwys manylion am Gynllun Hinsawdd Amaeth-amgylcheddol newydd.[73] Ymhlith yr ymatebion i Ymgynghoriad Cyfnod 1 Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020[74], tynnwyd sylw at fesurau'r Cynllun Amaeth-amgylcheddol fel blaenoriaeth uchel ar gyfer buddsoddiad. Roedd yr ymatebion hefyd yn pwysleisio'r angen am gynllun symlach sy'n fwy hygyrch a hyblyg.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi amlinellu y bydd y Cynllun Hinsawdd Amaeth-amgylcheddol yn chwarae rhan yn y canlynol:

- Gweithredu Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yr UE;
- Sicrhau statws cadwraeth ffafriol ar gyfer safleoedd cadwraeth natur dynodedig;
- Rheoli'r lledaeniad o blanhigion ac anifeiliaid anfrodorol sydd wedi'u cyflwyno;
- Gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE, y Gyfarwyddeb Nitradau a'r Gyfarwyddeb Dŵr Daear;
- Cyrraedd targedau Llywodraeth yr Alban ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Gwella'r broses o ddal a storio carbon drwy systemau naturiol;
- Helpu gyda Chynllun Gweithredu Strategaeth Defnyddio Tir Llywodraeth yr Alban;
- Helpu i gyflawni nodau Confensiwn Tirwedd Ewrop;
- Cyfrannu at Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol Llywodraeth yr Alban.[75]

---

[72] Llywodraeth yr Alban, ***Y Cynllun Datblygu Gwledig***, 1 Ebrill 2004 [fel ar 10 Tachwedd 2014]
[73] Llywodraeth yr Alban, ***Cynllun Datblygu Gwledig yr Alban 2014-2020 a gyflwynwyd a'r eirfa***, [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[74] Llywodraeth yr Alban, ***Ymgynghoriad Cyfnod 1 Rhaglen Datblygu Gwledig yr Alban 2014-2020*** 1 Mai 2013 [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[75] Llywodraeth yr Alban, ***Cyfnod 2 Rhaglen Datblygu Gwledig yr Alban 2014-2020: Cynigion Terfynol, Adran 9: y Cynllun Hinsawdd Amaeth-amgylchedd***, Rhagfyr 2013 [fel ar 3 Tachwedd 2014]

Mae'r cynlluniau Hinsawdd Amaeth-amgylchedd cystadleuol wedi'u targedu yn seiliedig ar y dull dau gam a ganlyn:

**Cyfnod 1** - Caiff argaeledd pob opsiwn ei gyfyngu i ardal wedi'i thargedu. Er mwyn bod yn hyblyg, caiff ceisiadau y tu allan i ardaloedd sydd wedi'u targedu eu hystyried o hyd pan fo cyfiawnhad cryf e.e. pan fo asiantaeth berthnasol Gwasanaethau Gwledig ac Amgylcheddol yr Alban wedi ardystio.

**Cyfnod 2** - Caiff ceisiadau eu sgorio yn erbyn meini prawf targedu er mwyn asesu budd cynigion unigol, gan roi ystyriaeth i ffactorau sy'n benodol i'r safle. Caiff y meini prawf targedu hyn eu cynnwys yn y system sgorio.

Ar gyfer rhai opsiynau, sy'n berthnasol yn gyffredinol ledled yr Alban (e.e. cefnogaeth i ffermio organig), ni fydd angen targedu'n ddaearyddol, a thargedir drwy asesiad cyfnod 2 yn unig. Bydd yr holl geisiadau cymeradwy yn destun arolygiadau rheoleiddio i wirio rheolaeth a chymhwysedd.[76]

Bydd cymorth ar gael i reolwyr tir er mwyn annog gweithgareddau cydgysylltiedig ar raddfa tirwedd neu ecosystem. Mae hyn yn cynnwys cysylltu darnau annibynnol o gynefinoedd bioamrywiaeth er mwyn helpu rhywogaethau i wasgaru neu gydgysylltu'r gwaith o reoli llygredd gwasgaredig neu ddŵr llifogydd o fewn dalgylch. Caiff taliadau eu gwneud i grŵp o ffermwyr neu sefydliad i hwyluso'r broses mewn ardal benodol. Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd gwblhau dyddiadur monitro fel ail ffynhonnell o dystiolaeth i brofi bod y camau perthnasol wedi'u cymryd.

Yn ôl bob sôn mae'r rheolau a'r canllawiau sy'n rheoli prosiectau'r cynlluniau yn canolbwyntio fwy ar y cwsmer.[77] Bydd hyn yn cynnwys contractau gwell a all gynnwys gofynion rheoli 'pwrpasol' i gyflawni amcanion ecolegol penodol.

Bydd taliadau cyfalaf ar gyfer eitemau fel ffensio a chyfarpar creu cynefinoedd hefyd ar gael, ac yn gyffredinol, telir amdanynt ar sail costau safonol. Bydd y taliadau hyn yn destun gwaith craffu ar y cam gwneud cais.[78]O dan Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yr Alban, mae cyllid ar gael ar gyfer newid i ffermio organig a chynnal y gwaith hwnnw o fewn y Cynllun Hinsawdd - Amaeth-amgylcheddol. Bydd rhywfaint o ryngweithio gyda'r elfen wyrddu ar gyfer ffermwyr organig. Bydd crofftwyr a ffermydd bach yn gallu cael gafael ar gyllid ar gyfer y gweithrediadau Hinsawdd Amaeth-amgylcheddol hynny sy'n berthnasol i'w hardal.

---

[76] Llywodraeth yr Alban, ***Cynllun Datblygu Gwledig yr Alban 2014-2020 a gyflwynwyd a'r eirfa***, [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[77] Llywodraeth yr Alban, ***Cyfnod 2 Rhaglen Datblygu Gwledig yr Alban 2014-2020: Cynigion Terfynol, Adran 9: y Cynllun Hinsawdd Amaeth-amgylchedd***, Rhagfyr 2013 [fel ar 3 Tachwedd 2014]
[78] Llywodraeth yr Alban, ***Cynllun Datblygu Gwledig yr Alban 2014-2020 a gyflwynwyd a'r eirfa***, [fel ar 3 Tachwedd 2014]

Mae Llywodraeth yr Alban yn darparu gwasanaeth cynghori i helpu ffermwyr a rheolwyr tir ddatblygu cynigion sy'n ystyried yn llawn yr amrywiaeth o flaenoriaethau y gellid eu darparu ar eu tir er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.

Ymhlith y gweithgareddau a gaiff eu gweithredu o dan y cynllun Hinsawdd Amaeth-amgylcheddol mae:

- tir âr – sy'n cynnwys creu a rheoli cnydau buddiol, gan gynnwys ardaloedd heb eu cynaeafu;
- byffrau gwair a ffiniau dŵr – yn bennaf ar gyfer ansawdd dŵr, bydd yr ardaloedd hyn yn ffurfio rhwystrau ar gyfer dŵr sy'n rhedeg, yn ogystal â sicrhau buddiannau amgylcheddol a buddiannau o ran bioamrywiaeth;
- crofftio / ffermio gwerth natur uchel – gan gynnwys 'Cropped Machair', ac ymrwymiadau sy'n adlewyrchu economi maint o ran cynhyrchu llawer o dda byw;
- rheoli cynefinoedd / tir pori – rheoli tir pori buddiol, yn arbennig cynefinoedd arwyddocaol, gan gynnwys corstiroedd ac ardaloedd sydd â llawer o rywogaethau;
- rheoli rhostiroedd / ucheldiroedd – gan gynnwys rheoli tir pori;
- gwarchod rhywogaethau – cefnogi'r gwaith o warchod rhywogaethau arbennig fel rhegen yr ŷd, y frân groesgoch a bras yr ŷd yn yr Alban;
- effeithlonrwydd carbon yn y sector da byw er mwyn lliniaru'r newid yn yr hinsawdd;
- rheoli llifogydd naturiol – gan gynnwys adfer gorlifdiroedd ac ardaloedd rhynglanwol.

## *5.2. Cyllid*

Roedd gan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013 yr Alban gyllideb a oedd yn gyfanswm o £1.2 biliwn.[79] Dyrannwyd £404 miliwn ar gyfer taliadau amaeth-amgylcheddol, gan gynnwys £45 miliwn ar gyfer cynhyrchu organig.[80]

Mae gan Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013 yr Alban gyllideb sy'n gyfanswm o £1.3 biliwn. Caiff y gyllideb hon ei rhannu rhwng 14 o becynnau a chynlluniau cymorth, ac un o'r rhain yw'r Cynllun Hinsawdd Amaeth-amgylchedd, gyda dyraniad arfaethedig o £355 miliwn (neu 27% o'r gyllideb).

---

[79] Llywodraeth yr Alban, ***Rhaglen Datblygu Gwledig yr Alban*** [fel ar 10 Tachwedd 2014]
[80] Papur briffio SPICe, ***Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013 yr Alban***, 23 Mehefin 2008 [fel ar 14 Tachwedd 2014]